# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 23 MAWRTH 2022, trwy Zoom.**

Aelodau â phleidlais: Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd); Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a Gwyddorau Ffisegol); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr); Yr Athro Hazel Davey; Mr Prysor Davies; Yr Athro Sarah Davies; Yr Athro Iain Donnison; Ms Mared Edwards, Llywydd UMCA; Dr Rebecca Edwards; Dr Gwion Evans; Dr Patrick Finney; Dr Gabor Gelleri, Dr Sarah Higgins; Dr Aloysius Igboekwu; Mr Penri James, Cadeirydd Cangen PA y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Thomas Jansen; Dr Alex Mangold; Ms Elizabeth Manners, Swyddog Materion Academaidd UMAber; Dr Louise Marshall; Yr Athro Robert Meyrick; Mr John Morgan; Mr David Moyle; Dr Heather Norris; Yr Athro Eleri Pryse; Yr Athro Phillipp Schofield; Dr Sarah Wydall a’r Athro Reyer Zwiggelar.

Aelodau heb bleidlais: Yr Athro Simon Banham; Yr Athro Simon Cox; Yr Athro Andrew Evans; Yr Athro Nigel Holt; Yr Athro Emyr Lewis; Yr Athro Helen Roberts; Dr Anoush Simon; a’r Athro Andrew Thomas.

Yn gweinyddu: Ms Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa’r Is-Ganghellor; Ms Emma Williams, Cofrestrydd Academaidd, a Ms Kath Williams, Ysgrifennydd Dros Dro y Brifysgol.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Dr Cathryn Charnell-White; Ms Rachael Davey; Dr Andrew Davies; Mr Tim Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth; a Ms Sabina O'Donoghue, Llywydd UMAber.

## 28. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. Croeso

   Ms Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor a oedd yn bresennol fel sylwedydd.

2. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. Dr David Falla, cyn warden Neuadd Padarn a darlithydd yn yr Adran Ffiseg.
   2. Joe Frances, myfyriwr 3edd flwyddyn yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.
   3. Yr Athro Emeritws Chris Harding, Adran y Gyfraith a Throseddeg a chyn-bennaeth adran.

4. Yr Athro Emeritws John Roland Haynes, un o raddedigion Daeareg Aberystwyth a chyn-aelod o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear.
5. Adrian Mironas, cyn-fyfyriwr yn IBERS, ac aelod o Dîm y Swyddfa Ryngwladol.

**29. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

**30. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2021, a 12 Ionawr 2022 (SEN2122-042).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**31. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi’r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2122-043).

NODWYD

1. Y diweddariadau a nodwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

2. Nodwyd bod angen diweddaru’r cofnodion a gadarnhawyd o’r cyfarfod dyddiedig 22 Medi 2021 fel a ganlyn: (cofnod 7.7 fel y'i rhestrir ar y Cofnodydd Gweithredu): i gyfeirio yn y cymal agoriadol at 'darparu **sgiliau academaidd**' yn hytrach na 'darparu **sgiliau iaith';** yn y cymal olaf cyfeirio at '**Gwasanaethau Gwybodaeth** neu rywle arall' yn hytrach na’r '**Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu** neu rywle arall'.

PENDERFYNWYD

3. Ychwanegu nodyn at gofnodion y cyfarfod presennol yn ogystal a'r cofnodydd gweithredu [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd Dros Dro y Brifysgol].

**32. GOHEBIAETH**

1. Roedd Cyngor Sir Ceredigion wedi gofyn am gymorth gan y Brifysgol i ganfod siaradwyr Rwsieg, Wcreineg a Phwyleg. Roedd 97 aelod o'r Brifysgol wedi ymateb.

2. Roedd prifathrawon Prifysgolion yn Wcrain wedi cysylltu â Phrifysgolion y DU (UUK) yn gofyn am gymorth i fyfyrwyr prifysgol Wcrain allu cwblhau eu hastudiaethau gradd yn yr Haf, ac i archwilio'r posibiliadau am gysylltiadau parhaus â sefydliadau yn y DU. Byddai'r Cyfarwyddwr Cynllunio yn mynd i weithgor ar ran PA i symud y trafodaethau hyn yn eu blaen.

**33. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN2122-044).

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Roedd cydweithwyr yn cael eu hannog i ddod nôl i'r Campws am o leiaf ran o'r wythnos waith.

3. Roedd nifer yr israddedigion wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, dros 9000 o ymgeiswyr hyd yma, ac roedd nifer y derbyniadau ar lefel uwch. Er bod y Brifysgol yn gweld twf cyson roedd y broses o bennu'r gyllideb am 2022-2023 yn dal yn heriol, er bod y Brifysgol ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gael gwarged cymedrol am y flwyddyn ariannol gyfredol.

4. Y graddio: cynigiwyd cynnal 16 o seremonïau dros gyfnod o 7 diwrnod a diolchwyd i gydweithwyr am eu hymdrechion i baratoi rhaglen am yr wythnos. Byddai rhagor o wybodaeth a cheisiadau am fanylion perthnasol yn cael eu cyhoeddi maes o law ynghyd â chanllawiau ar gyfer cynnal digwyddiadau croeso.

5. Holwyd ynglŷn â datblygiadau ar fater statws Dinas Llenyddiaeth Unesco, a chytunwyd y byddai'r Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi yn cysylltu â chynrychiolwyr o'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau ynglŷn â'r cais.

**PENDERFYNWYD**

6. Cynnwys cynrychiolwyr o'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth mewn gohebiaeth yn y dyfodol ynglŷn â'r cais am statws Dinas Llenyddiaeth Unesco [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Arloesi);

**34. IS-FFRAMWAITH IBERS YN Y DYFODOL O FEWN i GYFADRAN Y GWYDDORAU DAEAR A BYWYD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd) a'r Athro Iain Donnison, Pennaeth IBERS (SEN2122-045).

NODWYD

1. O dan Ordinhad 21 ynghylch trefn unedau academaidd fel y'u cydnabyddir gan y Cyngor, roedd yn ofynnol i'r Senedd dderbyn i'w trafod ac argymell i'w cymeradwyo, unrhyw gynigion i newid cyfansoddiad unedau academaidd.

2. Yn dilyn ymgynghori helaeth â Gweithrediaeth y Brifysgol, Gweithrediaeth y Gyfadran, staff IBERS a'r corff myfyrwyr: cynigiwyd, o 1 Awst 2022, y byddai IBERS yn cael ei had-drefnu yn ddwy uned academaidd ar wahân, o dan ddau dîm o arweinwyr yng Nghyfadran

Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd. Byddai’r *Adran Gwyddorau Bywyd* arfaethedig yn cynnwys staff sy'n ymwneud ag addysgu & ysgolheictod ac addysgu & ymchwil; a byddai sefydliad ymchwil ar wahân yn cael ei greu (y bwriedir iddo gadw'r teitl 'IBERS'), a fyddai'n cynnwys staff sy'n gwneud ymchwil ynghyd â rhywfaint o addysgu o bosibl, a hynny ar lefel uwchraddedig ar y cyfan. Nid oedd yr ad-drefnu'n cynnwys cynigion i roi swyddi mewn perygl o’u dileu.

3. Oherwydd y fframwaith a gynigir, byddai angen ystyried aelodaeth y Senedd er mwyn sicrhau cynrychiolaeth briodol i’r ddwy uned academaidd arfaethedig.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo mewn egwyddor ad-drefnu fframwaith presennol IBERS a’i rhannu’n ddwy adran academaidd ar wahân fel yr amlinellwyd, ac i geisio cymeradwyaeth ffurfiol i’r newid gan y Cyngor [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd Dros Dro y Brifysgol].

5. Bwrw ymlaen â chreu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gwblhau'r trefniadau fel yr amlinellwyd [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd].

6. Yn amodol ar gadarnhad terfynol yn y Cyngor, cadarnhau'r trefniadau i sicrhau cynrychiolaeth briodol i’r adrannau newydd yn y Senedd ar ôl dyddiad dechrau’r adrannau newydd ar 1 Awst 2022 [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd Dros Dro y Brifysgol].

**35. STRATEGAETH YMCHWIL AC ARLOESI: ADOLYGIAD CANOL TYMOR O GYNNYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) (SEN2122-046)

NODWYD

1. Cymeradwywyd Strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol gan y Cyngor ar ddiwedd 2019 a chyflwynwyd y strategaeth honno i'w hadolygu, ynghyd â chrynodeb o'r cynnydd ar y camau a nodwyd yn ogystal â chamau gweithredu ychwanegol.

2. Roedd y strategaeth ddiwygiedig yn cynnwys ymateb i bandemig Covid-19 a gwnaed diwygiadau pellach hefyd am fod y Brifysgol wedi mabwysiadu dau goncordat newydd: un ar Ddatblygu Ymchwil a'r ail ar gyfer Cyfnewid Gwybodaeth.

3. Hefyd gwnaed buddsoddiadau mawr gan CCAUC ar ffurf Cyllid Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) a oedd wedi'i ymgorffori yn y datblygiadau strategol am y cyfnod sy'n weddill.

4. Ar hyn o bryd, roedd y Weithrediaeth yn trafod buddsoddi mewn mentrau a'u datblygu i hybu ymchwil fel a ganlyn: yn gyntaf, rhoi cymorth mwy effeithiol i gydweithwyr sy'n derbyn grantiau ymchwil. Byddai’r cymorth yn cael ei ddatblygu trwy grŵp Gorchwyl a Gorffen dan arweiniad yr Athro Iain Donnison. Yn ail, buddsoddi mewn nifer o Gadeiriau’r Dathlu, i fod yn ddull o ddathlu carreg filltir ac o gynyddu proffil meysydd ymchwil sy’n datblygu. Yn drydydd, cyflwyno trefn gystadleuol ar gyfer dyfarnu cyfnodau absenoldeb ymchwil, ar ben y drefn bresennol sydd ar waith yn y tair Cyfadran.

5. Trafodwyd disgwyliadau ymchwil, a gwahoddwyd aelodau i ystyried dulliau effeithiol o ddarparu'r cydbwysedd priodol o roi cymorth i alluogi ymchwil ochr yn ochr â phrosesau i fesur cynnydd yn erbyn amcanion ymchwil a chanlyniadau posibl y prosesau hynny.

**PENDERFYNWYD**

6. Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

**36. MODEL DYRANNU A RHEOLI LLWYTH GWAITH - DIWEDDARIAD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd); Nick Rogers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, a Steve Walsh, Pennaeth Cynllunio (SEN2122-047)

NODWYD

1. Cyflwynwyd adolygiad o'r Model i'r Senedd yn 2021 a bryd hynny cytunwyd bod angen trafodaeth bellach ar nifer o faterion. Cafodd y rhain eu datblygu trwy gyfarfodydd â phenaethiaid adrannau academaidd a Dirprwy Is-Gangellorion y Cyfadrannau. Roedd y cynigion a dderbyniwyd yn seiliedig hefyd ar ganlyniadau arolwg a ddosbarthwyd i'r penaethiaid yn gofyn am atebion i nifer o gwestiynau a chytundeb cyffredinol ar ddyrannu tariffau'n briodol ar gyfer dyletswyddau nad ydynt yn ymwneud ag addysgu ac asesu.

2. Roedd y ddogfen a atodir yn rhestru nifer is o dariffau ac felly'n ymateb i'r pryder ynghylch gor-fanylder y drefn flaenorol. Cafodd y system newydd hefyd ei mireinio i ystyried tasgau a oedd yn gofyn am lefel debyg o ymdrech waeth beth fo maint yr adran. Cafodd hyn ei gydbwyso â thasgau wedi'u graddio yn ôl maint adran, ei chymhlethdod neu nifer ei myfyrwyr. Cydnabuwyd hefyd bod angen i'r system ddiwygiedig fod yn hawdd ei defnyddio o'r man cofnodi data a'i berthynas â llwyfannau presennol, megis amserlennu.

3. Nododd yr Aelodau bod angen cynnwys lwfans ysgoloriaeth ar gyfer staff Addysgu ac Ymchwil a oedd, fel mater o drefn, yn gorfod addysgu mewn meysydd y tu hwnt i'w harbenigeddau ymchwil.

4. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch swyddogaethau'r Deoniaid Cyswllt a'u dyraniad tariff cymharol nad oedd yn dangos gwahaniaeth statws rhwng Dysgu ac Addysgu ac Ymchwil ond yn hytrach yn dangos cyfanswm gwahanol o dasgau a dyletswyddau. Ar ben hyn, roedd angen cydnabod bod swyddogaethau arweiniol yn ymwneud ag Effaith Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth yn wahanol i gyfrifoldebau Deoniaid Cyswllt Ymchwil a dyrannu tariffau ar wahân yn unol â hynny.

5. Roedd amrywiaeth o ddyletswyddau a chyfrifoldebau wedi'u hymgorffori yn y tariffau a restrwyd. Er enghraifft: tariffau ar gyfer Dinasyddion Da, Denu Myfyrwyr neu Ehangu Cyfranogiad. Byddai canllawiau'n cael eu drafftio a fyddai'n rhoi amcan o'r meysydd gwaith a ymgorfforir yn y gwahanol benawdau a restrir.

**PENDERFYNWYD**

6. Derbyn yr adroddiad a'r diwygiadau arfaethedig i'r Model fel yr amlinellir, yn amodol ar ddatblygu cynllun gweithredu a chanllawiau ar gyfer defnydd a diben y system, yn cynnwys proses amlinellol ar gyfer gofyn am dariffau ychwanegol [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd].

**37. PWYLLGOR YMCHWIL**

1. <u>Adroddiad o'r Pwyllgor Ymchwil</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Tîm Effaith Ymchwil (SEN2122-048)

NODWYD

1. Derbyniwyd llythyr oddi wrth CCAUC yn cadarnhau cynnydd o tua £1m i gyllid Ymchwil o Ansawdd yn ystod y flwyddyn (i'w wario cyn 31 Gorffennaf 2022), gydag amodau'n ymwneud â'i ddefnydd, yn seiliedig ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ymchwil ac Arloesi. Gwahoddwyd y Deoniaid Cyswllt ar gyfer Ymchwil i ganfasio am gynigion prosiect yn eu Cyfadrannau; ac roedd y Ffermydd a'r Ganolfan a Laborai Milfeddygol hefyd wedi cael gwahoddiad i gyflwyno syniadau. Nodwyd y byddai rhestr hir o syniadau yn cael ei chyflwyno i'r Grŵp Gweithredol ar 29 Mawrth 2022.
2. Dywedwyd wrth yr Aelodau am effeithiau'r sefyllfa bresennol yn Wcráin ar brosiectau ymchwil PA, gan nodi y byddai'r Brifysgol yn cydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth a chyllidwyr allweddol yn achos amrywiaeth o gysylltiadau cyllid ymchwil, yn enwedig â Belarws a Rwsia. Cafodd cysylltiadau ymchwil heb eu hariannu eu hystyried fesul achos a gwnaed dyfarniadau yn unol â hynny ynghylch parhau â chydweithrediadau.

2. <u>Adroddiad Blynyddol Moeseg</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lisa Fisher, Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (SEN2122-049).

NODWYD

1. Mai'r gyntaf o ddwy eitem gysylltiedig a ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfiaeth oedd yr Adroddiad Blynyddol. Roedd yr adroddiad yn ystyried y prosesau sy'n llywodraethu uniondeb ymchwil a moeseg yn ogystal â data ar gyfer cyflwyniadau i'r broses foesegol.
2. Roedd prosiectau ymchwil hefyd yn cael eu harchwilio er mwyn cadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r fframweithiau moeseg y cytunwyd arnynt. Roedd un prosiect eisoes wedi ei archwilio a dau arall yn yr arfaeth.

**PENDERFYNWYD**

3. Derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar Foeseg Ymchwil fel y nodwyd.

3. <u>Datganiad Blynyddol Uniondeb</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lisa Fisher, Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (SEN2122-50).

NODWYD

1. Bod yr ail adroddiad yn un a oedd ar gael i'r cyhoedd lle'r oedd yn rhaid i'r Brifysgol gadarnhau'r prosesau a ddefnyddir i sicrhau bod yr ymchwil a gyflawnir yn foesegol, ynghyd â rhoi sicrwydd ynglŷn â darparu hyfforddiant am y prosesau hyn. Roedd yr

adroddiad hefyd yn cynnwys datganiad am nifer yr ymchwiliadau i achosion o ymddygiad annerbyniol mewn ymchwil, a nodwyd 'dim un' am 2020-2021.

**PENDERFYNWYD**

2. Derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil fel y nodwyd.

**38. Y BWRDD ACADEMAIDD**

1. <u>Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd), ynglŷn â chyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2022 (SEN2122-051).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd ar 09 Mawrth 2022.

2. Tynnwyd sylw at y paratoadau am yr Arolwg Gwella Ansawdd, a drafodwyd yng Nghyfarfod Arbennig y Senedd ar 12 Ionawr 2022. Roedd y ddogfen derfynol i'w chael ar SharePoint.

4. Dywedwyd wrth yr aelodau am y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yn ystod ymweliad yr arolwg, a fyddai'n gyfres o rith-gyfarfodydd.

5. Fe fu trafodaeth ynghylch cynnydd academaidd a monitro presenoldeb ac yn dilyn hynny roedd y Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu ac Addysgu wedi cyfarfod â Phenaethiaid academaidd a oedd wedi nodi gostyngiad mewn presenoldeb. Cytunwyd y dylid rhoi mwy o sylw i'r mater hwn yn ystod y digwyddiadau ymgynefino ym mis Medi.

6. O ganlyniad i newidiadau yng nghanllawiau Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynol (OIA), cynigiwyd y byddai prosesu amgylchiadau arbennig yn cael ei wneud fel swyddogaeth weinyddol er mwyn gwahanu rhwng y broses ac unrhyw fewnbwn neu sylw dilynol gofynnol gan staff academaidd, yn enwedig Tiwtoriaid Personol.

7. Bu cynnydd yn nifer yr achosion o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol a oedd yn gysylltiedig â nifer cynyddol yr Asesiadau yn Lle Arholiadau. Cynigiwyd y dylid ymgorffori hyfforddiant uniondeb academaidd ymhellach yn y trefniadau ymgynefino.

8. Derbyniwyd cyfres o adroddiadau blynyddol. Dywedwyd wrth yr Aelodau am y cynnydd yn nifer yr achosion disgyblu ochr yn ochr â chynnydd yn nifer yr achosion cymhleth o 'addasrwydd i fynychu'.

9. Cafodd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio Portffolio ei adolygu a byddai'n cynnwys pwerau ychwanegol i ddiddymu cynlluniau sy'n denu nifer isel o fyfyrwyr, er mai'r disgwyliad o hyd oedd mai'r Cyfadrannau fyddai'n arwain ynglŷn â rhesymoli portffolio.

10. Cyflwynir y mudo i Blackboard Ultra ym mis Medi 2023 a bydd diweddariad arfaethedig y copi cwrs gwag yn cael ei ohirio yn unol â hynny.

PENDERFYNWYD

11. Derbyn yr adroddiad a'r argymhellion fel yr amlinellwyd.

2. <u>Cyflwyniad Myfyriwr i Arolwg Gwella Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd) (SEN2122-052).

1. Derbyn Cyflwyniad y Myfyrwyr i Arolwg Gwella Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd fel y nodwyd.

3. <u>Arolwg Gwella Ansawdd – Cynllun Gweithredu</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd) (SEN2122-053).

1. Derbyn y cynllun gweithredu fel y nodwyd.

**39. Y BWRDD MARCHNATA A DENU MYFYRWYR**

1. <u>Adroddiad o’r Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Sarah Whitehead, Dirprwy Gofrestrydd (Derbyn Myfyrwyr) (SEN2122-054).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr ar 09 Chwefror 2022. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

2. Argymhellwyd diwygiad i'r Cylch Gorchwyl yn dilyn symud y Ganolfan Saesneg Ryngwladol o gyfadran academaidd i adran gwasanaeth a fyddai’n golygu, o dan y telerau presennol, nad oedd yr uned yn cael ei chynrychioli ar y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr.

3. Dywedwyd wrth yr Aelodau am yr argymhelliad y byddai graddedigion PA sy'n gwneud cais yn y dyfodol am le ar gyrsiau uwchraddedig yn gallu gwneud hynny heb ddarparu geirda ychwanegol. Roedd pryder ynglŷn â'r argymhelliad hwn, yn enwedig yn achos ymgeiswyr Astudiaethau Gwybodaeth i gyrsiau trosi lle’r oedd yn rhaid iddynt ddangos profiad blaenorol a gofynion eraill cyn eu derbyn am astudiaeth uwchraddedig.

4. Yn unol â sefydliadau academaidd eraill, argymhellwyd y dylid cynyddu blaendaliadau myfyrwyr tramor i £5000 yn achos myfyrwyr o 'wledydd risg uchel'

a £2000 i fyfyrwyr o 'wledydd risg isel'. Nodwyd bod hyn yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn ogystal â'r arfer mewn sefydliadau eraill. Roedd y blaendal wedi'i osod yn erbyn y ffi ddysgu derfynol ac felly nid oedd yn gynnydd yng nghyfanswm y ffi sy'n daladwy.

**PENDERFYNWYD**

5. Ailystyried yr argymhelliad ynghylch y gofynion mynediad ar gyfer Astudiaethau Gwybodaeth a darpariaeth alwedigaethol arall. [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr].

2. Cylch Gorchwyl

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Sarah Whitehead, Dirprwy Gofrestrydd (Derbyn Myfyrwyr) (SEN2122-055).

**PENDERFYNWYD**

1. Derbyn yr argymhelliad i ychwanegu Cyfarwyddwr y Ganolfan Saesneg Ryngwladol at aelodaeth y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr.

**40. BWRDD Y DDARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL**

1. Adroddiad o Fwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Sarah Jones, Cofrestrydd Cynorthwyol - Partneriaethau Academaidd (SEN2021-055).

NODWYD

1. Cafodd y contract rhyddfraint gyda Choleg Cambria ei adnewyddu ac roedd trafodaethau ar y gweill â Choleg Gwent ynglŷn â datblygu darpariaeth pellach.

**PENDERFYNWYD**

2. Derbyn yr adroddiad fel y nodwyd.

**41. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Derbyniodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad o'r *Coleg Cymraeg Cenedlaethol* (SEN2122-057);
2. Grantiau Ymchwil (SEN2122-058);
3. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN2122-059); a
4. Gwobrau Academaidd 2020-2021 (SEN2122-060)

NODWYD

5. Cynnwys yr adroddiadau eraill a gyflwynwyd er gwybodaeth.

**42. COFNODION PWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

1. Adroddiad yn cynnwys y cofnodion canlynol (SEN2122-061):

    1. Y Pwyllgor Ymchwil (08 Mawrth 2022);
    2. Y Bwrdd Academaidd (09 Mawrth 2022);
    3. Y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr (09 Chwefror 2022);
    4. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (10 Tachwedd 2021; a 02 Mawrth 2022);
    5. Y Cyngor (26 Tachwedd 2021; a 4 Chwefror 2022).

NODWYD

2. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.

**43. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL**

NODWYD

1. Diolchodd y Cadeirydd i Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor am ddod i'r cyfarfod fel sylwedydd.